

W. J. Edwards yn Ychwanegu at Hanes Penllyn

Roedd gen i ddi-ddordeb yn llith Bill Linnard ynglŷn â Phenllyn yn y rhifyn diwethaf gan imi ymchwilio i hanes ei deulu pan drigwn yn Llanuwchllyn. Fe'i bedyddiwyd yn William Evans - nid Evan, fel y nodwyd, oherwydd yr oedd ganddo frawd hŷn o'r enw hwnnw. Elizabeth Evans oedd ei fam cyn priodi, yn ferch i Evan ac Elin Evans oedd yn byw yn un o dai'r Garneddwen, filltir go dda o Lanuwchllyn ar ffordd Dolgellau. Roedd yn hen arfer gosod cyfenw morwynol y fam yn enw canol i fab neu ferch.

Perthynas i Ann Griffiths

Clywais ddweud fod Evan Evans wedi dod i Gwm Peniel (Cwm Llwyngwern gynt) o Lanwddyn i ail-adeiladu Pont y Pandy a ddymchwelwyd gyda phedair arall gan Li' Mawr 20 Mehefin 1781, a'i fod yn perthyn i Ann Griffiths. Gwasanaethodd Evan Evans ei fro mabwysiedig fel saer maen am gyfnod hir cyn ei farw ar 23 Ionawr 1864.

O droi at gyfrifiad 1851, gwelir fod Elizabeth yn Garneddwen yn byw gyda Lewis Jones ei gŵr, yn Ffriddgymen, Llangywair. Roedd Lewis yn enedigol o blwyf Llanuwchllyn ac yn nai i'r Parchedig David Jones, Treffynnon, gweinidog enwog gyda'r Annibynwyr, cerddor a chyhoeddwr sawl casgliad o emynau ymron i ddwy ganrif yn ôl. Cynhwysodd rai o'i emynau ei hun yn y llyfrau.

Pam y Mellithiwyd Owen Cadwaladr?

Soniais eisoes am Evan, brawd hŷn

Penllyn; roedd yn efaill i John a oedd yn daid i Rhys Gruffydd a fu'n ysgolfeistr rhagorol ym Meirionnydd, tad y Dr. Llŷr Gruffydd. Brodyr eraill Penllyn oedd David, Lewis Davies, 'Llew Tegid', ysgolfeistr ym Mangor ac arweinydd llwyfan yr Eisteddfod Genedlaethol am chwarter canrif, Owen Cadwaladr y mellithiwyd ei enw ym Mhatagonia am iddo fynd â phlanhigyn nad oedd ond chwyn yno, Morris a symudodd i Ffestiniog a hendaid Mici Plwm. Un chwaer oedd gan y brodyr, Elizabeth, a aeth i'r Wladfa gydag Owen, a chael ei chladdu yno. Dychwelodd Owen i'w henfro i orllwys ym medd ei fam yn y Fynwent Newydd, Llanuwchllyn. Er disgrifio Penllyn fel bardd o fri cenedlaethol adeg ei farw ym 1938 mae'n debyg mai fel emynydd y cofir ef erbyn hyn. O gofio'i berthynas â David Jones, Treffynnon, roedd yn naturiol iddo fwrw iddi i gyfansoddi nifer helaeth o emynau. Fe'i hystyrir yn gryn awdurdod ar emynyddiaeth, a dyna pam y gwahoddwyd ef gydag Elfed, J. J. Williams, David Adams a Ben Davies, i olygu *Y Caniedydd Cynulleidfaol Newydd*, ym 1921. Cynhwyswyd 26 o'i emynau yn y llyfr a deuddeg yn *Y Caniedydd* a gyhoeddwyd ym 1960. Dim ond tri sydd yn *Caneuon y Ffydd* (2001), yn cynnwys ei 'Emyn Ordeinio', *'Arglwydd, anfon o'r uchelder/Nerth yr Ysbryd ar dy was'*, emyn a fu'n boblogaidd iawn mewn cyfarfodydd ordeinio a sefydlu. Yr un a genir amlaf yw *'Yr Arglwydd fendithiwn, cydganwn ei glod'*.



Cadair arall Penllyn Jones yn yr Hen Gadair, Llanuwchllyn

Ennill y Gader am Awdl i Michael D. Jones

Fel y dywed Bill Linnard, enillodd Penllyn gadair am awdl i Michael D. Jones. Yn Eisteddfod y Llungwyn, Llanuwchllyn, y cafodd y gadair ac Elfed oedd y beirniad. Cyhoeddwyd yr awdl a'r un ail orau o waith Gwyndaf Davies, athro beirdd gwych, diacon yn yr Hen Gadair ac Henadur ar Gyngor Sir Meirionnydd. Doedd Penllyn ddim yn bresennol ac fe'i cynrychiolwyd gan Hugh T. Richards, Pontypridd. Ymhen blynnyddoedd cyflwynodd merched Penllyn y gadair i'r Hen Gadair ac y mae i'w gweld yn y sêd fawr. Mae cadair arall i'w gweld yn Ebenezer, Colwyn, lle bu Penllyn yn weinidog o 1880 i 1923 - ei unig ofalaeth.

Rwy'n cytuno â Bill Linnard y dylai hanes Penllyn fod yn *Y Bywgraffiadur*, ond fel Bill, ni welais ei awdl 'Ymnertha a Bydd Wr' a ddaeth i'r brig ym Machynlleth, 1898.



Tŷ'r Hen Gadair, Llanuwchllyn - man geni Michael D. Jones

AR WERTH

Without my wig, Judge Sir Thos. Artemus Jones 1944 £5.00
Ysgrifau byrion, Evan Jones Caernarfon, 1905 £2.00
Kilsby Jones, Vyrnwy Morgan (clawr papur, rhydd) n.d. £5.00
Hanes bywyd Y Parch. Jenkins Jenkins, Jenkin Jenkins, Utica N.Y. 1872 £2.00
Maes Maelor, R. J. Jones 1957 £2.00
Ymhel â Prydyddu, T. H. Parry Williams 1958 (Darlith) £1.00
A Welsh Singer. Allen Raine [1902 mewn inc], clori- au caled, mewn cyflwr da £5.00
The Holy Wells of Wales, Francis Jones 1954 £30.00
Cysyllter â Mari Ellis, 4 Laura Place, Aberystwyth, Ceredigion SY23 2AU neu ar 01970 617171